

ARCHIFAU
CYMRU




ARCHIVES
WALES



Camu i Fyd Archifau

Canllaw Cyflym



Mae archifau yn cadw ein hatgofion ac yn diogelu ein hanesion ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Does dim angen i chi fod yn arbenigwr i ddefnyddio archif. Mae archifau ar gyfer pawb – ac maen nhw'n rhad ac am ddim!

Y cyfan sydd angen yw eich chwilfrydded – a syniad o'r hyn yr hoffech ei weld.

Os ydych chi am ddod o hyd i ddarn coll yn eich coeden deuluol, am gael cipolwg ar stori o'n gorffennol ni, neu'n chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer prosiect creadigol, mae archifau ar eich cyfer chi.

Mae archifyddion ledled Cymru wedi creu'r canllaw cam wrth gam hwn i'ch helpu i gychwyn arni.

1

Cam 1

Beth sydd o ddiddordeb i chi?

2

Cam 2

Cysylltu â ni

3

Cam 3

Archwilio'r casgliadau

1

Cam 1

Beth sydd o ddiddordeb i chi?

Mae ymweld ag archifdai, boed hynny ar-lein neu wyneb yn wyneb, yn haws os ydych chi'n gwybod yn fras beth rydych chi'n chwilio amdano.

Mae miliynau o eitemau unigryw yn cael eu cadw ledled Cymru, sy'n gyffrous, ond gall hefyd fod yn ormod!

Y cam cyntaf yw meddwl am yr hyn sydd o ddiddordeb i chi ac efallai pa gwestiynau yr hoffech eu hateb. Mae'n iawn os nad oes gennych gwestiwn penodol ar hyn o bryd. Efallai mai pwnc neu thema ehangach sy'n ennyn diddordeb, neu sgwrs rydych chi wedi'i gael gydag aelodau'r teulu neu ffrindiau.

Efallai bod gennych ddiddordeb mewn hanes LHDTC+, straeon Mwyafrifoedd Byd-eang, ein hetifeddiaeth chwaraeon, neu awduron ac artistiaid o Gymru.





Beth bynnag yw eich diddordeb, mae'r cam hwn yn gyfle i fyfyrïo ar yr hyn rydych chi'n ei wybod eisoes, a'r hyn yr hoffech ei ddarganfod nesaf.

Efallai eich bod eisoes yn gwybod mwy nag yr ydych chi'n ei feddwl: os oes gennych ddiddordeb mewn hanes teulu, efallai bod gennych hen luniau, tystysgrifau geni neu briodas, a straeon teuluol. Os oes gennych ddiddordeb yn hanes eich pentref, tref neu gymuned, efallai eich bod wedi darllen rhai llyfrau neu chwilio ar-lein amdano.

Casglwch y wybodaeth ynghyd er mwyn dod o hyd i fylchau. Beth sydd ar goll? Pa bethau allwch chi ddim eu darganfod?

Efallai y bydd yr atebion rydych chi'n chwilio amdanynt yn yr archif!

2

Cam 2

Cysylltu â ni

Unwaith eich bod chi'n gwybod yn fras beth rydych chi'n chwilio amdano, cysylltwch ag archifdy!

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn hanes teulu neu hanes lleol, ymweld â'ch archifdy lleol yw'r cam cyntaf. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau ledled Cymru ar wefan archifau.cymru.



Chwiliwch am eich archifdy lleol
ar archifau.cymru



Os oes gennych ddiddordeb mewn sefydliadau cenedlaethol neu bobl hanesyddol, efallai y bydd angen i chi deithio ymhellach. I ganfod yr archif sydd â'r casgliadau mwyaf defnyddiol ar gyfer eich ymchwil, ceisiwch chwilio gatalogau y DU, fel Jisc Archives Hub.

Am awgrymiadau ar sut i bori
drwy gatalogau archifol, ewch i
archifau.cymru.

Unwaith y byddwch chi'n gwybod gyda pha wasanaeth archif yr hoffech chi ddechrau, cysylltwch â ni drwy e-bost neu dewch i ymweld.

Mae'n timau archifol ni'n caru cael her, a byddant yn falch i'ch helpu gyda'ch ymholiad. Rhwch wybod iddyn nhw beth rydych chi wedi'i ddarganfod hyd yma, a beth hoffech chi ei ddarganfod nesaf. Byddant yn gallu eich cynghori ar y camau nesaf.



3

Cam 3

Archwilio'r casgliadau

Gydag arweiniad a chefnogaeth gan staff yr archifau, mae'n bryd archwilio'r casgliadau!

Gallai hyn olygu gwneud rhywfaint mwy o ymchwil gan ddefnyddio catalog yr archif neu ganllawiau ymchwil sydd ar gael. Mae archifwyr ledled Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar bopeth o ddod yn dditectif cartref, ac ymchwilio i iechyd y cyhoedd, i weithio gyda mapiau o'r gwahanol ganrifoedd. Gall y canllawiau hyn eich helpu i ddarganfod yr atebion rydych chi'n chwilio amdanynt.



Weithiau gall eich ymholiad arwain yn syth at eitem neu gasgliad penodol. Yn yr achos hwnnw, rydych chi'n barod i'w weld ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Mae mwy o eitemau yn cael eu digido a'u rhoi ar-lein bob blwyddyn, naill ai ar wefannau archifau unigol neu wefannau fel **Casgliad y Werin Cymru, Papurau Newydd Cymru, Mapiau Degwm Cymru, Ancestry, The Genealogist a Find My Past.**

Er hynny bydd dal angen gweld y rhan fwyaf o gofnodion trwy ymweld â'r archifdy.

Gallwch ddod o hyd i awgrymiadau a rhestrau gwirio i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich ymweliad cyntaf ag archif ar archifau.cymru.

Mae archifau Cymru hefyd yn cynnig cyngor ar wasanaethau ymchwil o bell, i'r rhai nad ydynt yn gallu ymweld wyneb yn wyneb.



Mae llawer o ymwelwyr yn syrthio mewn cariad â'r archifau ac yn dychwelyd atom dro ar ôl tro. Mae archifau yn cydio ynoch: Mae pobl wrth eu bodd yn teimlo fel ditectif, yn olrhain storïau ar draws amser a lle. Weithiau nid yw'r trywydd yn arwain at y stori, ac ni ellir mynd ymhellach, ond mae'r darganfyddiadau yn gwneud y daith yn werth chweil.

Y llun o'ch perthynas.

Y ffilmiau archif o'ch ysgol.

Y llythyr mewn llawysgrifen sy'n newid eich hanes.

Beth fyddwch chi'n ei ddarganfod?

Diolch i Gwasanaeth Archifau Conwy, Archifau Gwent, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru am y delweddau a ddefnyddir drwy gydol y canllaw hwn.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government